

TAR / PGCE Cymraeg i Bawb

Chwefror 22 2024

CROESO NÔL!

Heddiw, byddwn ni'n...

- trafod ein profiadau (experiences) yn yr ysgol
- adolygu
- dysgu sut i siarad am feddiant (saying that we 'have' something) ac afiechydon (illnesses)
- cael cyfle i edrych ar adnoddau defnyddiol (useful resources)



Prifysgol Cymru
Y Drindod Dewi Sant
University of Wales
Trinity Saint David



CANOLFAN
GWASANAETHAU
CYMRAEG
WELSH LANGUAGE
SERVICES CENTRE

Profiadau yn yr Ysgol ...

- Rhannwch i grwpiau o 3 fesul sector cynradd/uwchradd
- Trafodwch y cwestiynau hyn ...
- Split into groups of 3 by sector primary/secondary
- Discuss these questions...

Faint o Gymraeg
glywoch
chi/ddefnyddioch
chi bob dydd?
How much Welsh
did you hear/use
daily?

Oedd disgwyliadau?
Beth oedden nhw?

Were there
expectations for
Welsh? What were
they?

Pa 'arfer dda' byddwch
chi'n efelychu yn eich
profiad nesaf?
What good practice will
you take to your next
practice?

Adolygu .. Barod ... 5-4-3-2-1



There are two ways to say 'to have' in Welsh.



Possession

If someone is already in possession of something, we use the '**gyda + person**' pattern.

Mae car newydd **gyda fe**.

Roedd pen tost **gyda hi**.


Mae llawer o waith cartref **gyda'r myfyrwyr**.

If someone is in the process of obtaining something, we use '**cael**'.

Byddwn ni'n **cael** gwera Gymraeg heddiw.

Mae Jac yn **cael** brechdanau ham a chaws i ginio.

Roedd Tom yn **cael** cinio ysgol bob dydd.



gyda fi

gyda ti

gyda fe

gyda hi

gyda ni

gyda chi

gyda nhw

gyda Tom

gyda'r plant



Dril 2 Beth sy gyda pawb arall?

Mae

problem

gyda

ti.

fe.

hi.

ni.

chi.




nhw.

gyda'r

plant

Brawddeg Gadarnhaol

Mae pecyn bwyd gyda fi.



Brawddeg Gadarnhaol

Meddyliwch am 5 peth yn eich dosbarth chi.

Dilynwch y patrwm -

Mae _____ gyda _____ .

Gyda phartner, meddyliwch am 5 brawddeg gwahanol.

Her – ydych chi'n gallu newid 1 gair yn patrwm i newid yr amser – to say someone **had** something or someone **will** have something?

Sgwrs


1 Beth sy gyda Mared yn y bag heddiw?

2 Mae dol gyda hi.




1 Ie, beth arall?

2 Het, sgarff a menig.

1 Da iawn. Mae dol, het, sgarff a menig gyda Mared yn y bag.



Cyfieithwch y brawddegau hyn...

1. He has a sister
 2. I have an apple for dinner
 3. We have a Science lesson after dinner.
 4. Miss, I have a problem. I don't understand.
 5. Siân has a pen and she has a book.
 6. They have the answer Sir.
 7. She has a packed lunch and a drink.
 8. Dafydd has a friend in school today.
- 
- 
- 

Dril 3 Teulu

Mae

brawd

gyda

ti.

chwaer

fe.

dau frawd

hi.

tair chwaer

ni.

mam-gu

chi.

tad-cu

nhw.

gyda'r

plant




Mae gyda fi



mab



merch



ci



cath

un mab

dau fab

tri mab

pedwar mab

pum mab

chwe mab

un ferch

dwyr ferch

tair merch

pedair merch

pum merch

chwe merch

un ci

dau gi

tri chi

pedwar ci

pum ci

chwe chi

un gath

dwyr gath

tair cath

pedair cath

pum cath

chwe chath

Oes?

'Oes?' means *'Is there a?'* or *'Are there?/Are there any?'*

'a' and *'any'* are not translated into Welsh, e.g.

Is there a book on the table?



Oes llyfr ar y bwrdd?

Are there any pencils in the box?

Oes pensiliau yn y bocs?

Gofyn cwestiwn

Oes car gyda fi?



Gofyn ac ateb cwestiynau



Dril 4 Oes

Oes	wyth llinell syth ymyl syth Ochr	gyda'r	octagon? petryal? ciwb?	Oes, mae wyth llinell syth gyda'r octagon. Oes, mae pedair ymyl syth gyda'r petryal. Oes, wrth gwrs.
	pum cornel		triongl?	Nac oes, does dim pum cornel gyda'r triongl. Mae tri chornel gyda fe.
	siâp calon siâp seren	gyda	ti?	Oes, mae siâp calon gyda fi. Nac oes, does dim siâp seren gyda fi. Mae siâp wy gyda fi.

Ateb cwestiwn





Oes, mae car gyda fi.



Ateb cwestiwn

Nac oes, does dim car gyda fi.



COFIWCH:

'ti' yn y cwestiwn > 'fi' yn yr ateb

'chi' yn y cwestiwn > 'fi'/'ni' yn yr ateb



SGWRS YN YR YSGOL 1

1 Oes brechdanau gyda ti heddiw?

2 Oes, wrth gwrs. Mae brechdanau ham gyda fi.

1 Oes diod gyda ti?

2 Oes, mae sudd afal gyda fi. Oes brechdanau gyda ti hefyd?

1 Nac oes. Rydw i'n cael cinio gyda Mam-gu heddiw. Mae pasta i ginio. Pasta ydy fy hoff fwyd i.

EICH TRO CHI



Ysgrifennwch sgwrs newydd.

Cân Beth sy gyda Jeni? (Defnyddiwch enwau plant y dosbarth)

Tôn *Au clair de la lune*

Pennill 1

Beth sy gyda Jeni?

Beth sy gyda Joni?

Beth sy gyda Mari?

Beth sy gyda Harri?

Mae byji gyda hi.

Mae ceffyl gyda fe.

Mae pysgod gyda hi.

Does dim byd gyda fe.



Pennill 2

brechdan

afal


creision

Pennill 3

cardiau


iisgo

llithren



Dril 5 Does dim ...

Does dim	creon	gyda	fi
	papur sidan		ti
	glud		fe
	siswrn		hi
	cardfwrdd		ni
	paent		chi
	pensiliau		nhw
	sialc		Jo



Trowch y brawddegau i'r negyddol.

1. Mae gwaith cartref gyda ni heno.
2. Mae cyfrifiadur newydd gyda nhw.
3. Mae dis sbwnq gyda'r athrawes.
4. Mae arian gyda nhw.
5. Mae pwll nofio gyda nhw.
6. Mae cownter coch gyda hi.
7. Mae brechdanau gyda nhw.
8. Mae gêm newydd gyda ni.
9. Mae llyfrau gyda fi.
10. Mae gwern hanes gyda chi nawr.






DOES DIM

MEDDYLIWCH AM Y 5 PETH YN EICH DOSBARTH NEU
AM EICH PWNC.

YSGRIFENNWCH 5 BRAWDDEG NEGYDDOL AM Y
PETHAU HYN.



Oes gyda ti?



Beth sy gyda ti yn y gegin?

Oes gyda ti yn y gegin?



Meicrodon

Bwrdd

Peiriant golchi llestri

Ffwrn

Peiriant golchi

Tun bisgedi

Tegell

Peiriant coffi

Sychwr

Rhewgell

Ffrempan/padell
ffrïo

Tostiwr

Beth yw'r ateb?

Oes gwallt brown gyda Tom Jones?

Oes llygaid brown gyda Julia Roberts?

Oes tŷ mawr gyda'r teulu Beckham?

Oes car mawr gyda Simon Cowell?

Oes plant gyda Homer Simpson?

Oes llyfrau gyda David Walliams?

Oes bwyty gyda Gordon Ramsay?

EICH TRO CHI



Pawb i ysgrifennu 4 anifail/eitem yn y dosbarth. Gofynnwch i'ch partner **“Oes gyda ti?”** Bydd eich partner yn ateb **“Oes”** neu **“Nac oes”**. Y cyntaf i groesi pob anifail i ffwrdd o'r rhestr sy'n ennill y gêm.

Holiadur



Ewch o gwmpas y dosbarth yn holi cwestiynau i'ch ffrindiau e.e.

Oes gyda ti?

Oes / Nac oes

Sawl un?

Un / dau / tri


Pa liw?

Brown / du

- Cadwch gofnod (*record*) o'r atebion ac adroddwch yn ôl wrth eich partner e.e.

Mae un ci brown a gwyn gydag Eluned.

BETH SY'N BOD?



Ydych chi'n gallu cofio
rhannau'r corff?

Labelwch y llun.




Rhannau'r corff

Banc geirfa rhannau'r corff

Parts of the Body Bank

This list is for you to dip into as and when needed. There's no need to memorise these words at this stage.


annwyd	cold
brech yr ieir	chicken pox
clefyd y gwair	hayfever
feirws	virus
ffliw	'flu
gwres	fever, temperature
haint	infection
peswch	cough
salwch y môr	seasickness
y ddannoedd	toothache
y frech goch	measles
yr ig	hiccups
angen ...	need of ...
cywilydd	shame
eisiau bwyd	hunger
hiraeth	longing
ofn	fear
syched	thirst





Gwyliwch y fideo. Ydych chi'n clywed rhannau o'r corff?

Ar y sleid nesaf, ysgrifennwch y geiriau Cymraeg a'u hystyr yn Saesneg ar ddarn o bapur cyn i'r blociau eu gorchuddio nhw!



Geirfa

Cymraeg	Saesneg	
anaf, anafiadau (g)	injury, injuries	1.
anafu	to injure; to hurt	2.
annwyd (g)	a cold	3.
asgwrn, esgyrn (g)	bone, bones	4.
bola (g)	belly	5.
braich, breichiau (b)	arm, arms	6.
brifo	to injure; to hurt	7.
bwrw	to hit	8.
bys, bysedd (g)	finger, fingers	9.
cefn (g)	back	10.
ceg, cegau (b)	mouth, mouths	11.
clust, clustiau (b)	ear, ears	12.
cnoi	to bite	13.
coes, coesau (b)	leg, legs	14.
dant, dannedd (g)	tooth, teeth	15.
ewin, ewinedd (g/b)	nail, nails	16.
ffliw	flu	17.
gên (b)	chin	18.

gwddw, gyddfau (g)	throat	19.
gwres (g)	a temperature	20.
llaw, dwylo (b)	hand, hands	21.
llefain	to cry	22.
parafeddyg, parafeddygon (g)	paramedic, paramedics	23.
pen, pennau (g)	head, heads	24.
pen-glin, pengliniau (b/g)	knee, knees	25.
pen-ôl (g)	backside	26.
peswch (g)	cough	27.
poen, poenau (b/g)	pain, pains	28.
torri	to break; to cut	29.
tost	bad	30.
trafod	to discuss	31.
troed, traed (b)	foot, feet	32.
trwm	heavy	33.
trwyn, trwynau (g)	nose, noses	34.
ysgwydd, ysgwyddau (b)	shoulder, shoulders	35.

Chwarae Quizlet Live

<https://quizlet.com/gb/245893812/uned-30-afiechydon-geirfa-flash-cards/>

Tasg:

Ysgrifennwch

Ewin

Dant

Gên

Pen-glin

Pen ôl

Cesail

Ysgwydd

ar bost its – un post it ar
gyfer bob gair.



Tiwtor:

Ar ôl i chi adolygu'r geiriau gyda nhw,
dwedwch wrthyn nhw godi ar eu traed a rhoi'r
post its ar y rhan gywir o'u corff!

Gwrywaidd neu fenywaidd?!


Masculine or feminine?!

As you know, nouns yn Gymraeg are either masculine or feminine (or sometimes both!)

Many parts of the body, of which there are usually 2, are feminine:

braich, coes, llaw, troed

dwy f raich	<i>two arms</i>
dwy g oes	<i>two legs</i>
dwy l aw	<i>two hands</i>
dwy d roed	<i>two feet</i>





Treigladd **meddal** ar ôl
enw benywaidd UNIGOL

feminine singular nouns



When the word 'tost' follows a feminine singular noun, it mutates to

tost → dost

tost = ill, poorly, bad

Benywaidd

llygad dost

clust dost

ceg dost

llaw dost

braich dost

ysgwydd dost

coes dost

troed dost

Gwrywaidd

pen tost

gwddwf tost

trwyn tost

pen-glin tost

bola tost

cefn tost



Treigladd **meddal** ar ôl
enw benywaidd UNIGOL

braich **dost**
breichiau tost



Ymarfer...

Rhowch ffurf gywir y gair 'tost' yn y bylchau.


1. Mae pen _____ gyda fe heddiw.
2. Oes clustiau _____ gyda hi?
3. Roedd gwddw _____ gyda nhw.
4. Doedd dim dannedd _____ gyda fi.
5. Oes bola _____ gyda ti?
6. Roedd cefn _____ gyda fe.
7. Mae traed _____ gyda fi.
8. Does dim troed _____ gyda hi.



gyda rhan o'r corff
*(when a part of the body is
mentioned)*

e.e. Mae troed dost gyda fi

Does dim bola gyda hi




**os dydy rhan y corff
ddim yn cael ei
enwi**

(if body part not named)

e.e. Mae annwyd arna i

Oes peswch arnyn nhw?



**arnaf i
arnat ti
arno fe
arni hi
arnon ni
arnoch chi
arnyn nhw**

Rydyn ni'n defnyddio'r
patrwm yn y cwestiwn

—

**Beth sy'n bod arnat
ti?**

What is wrong with
you/what's the matter
with you?



MAE PEN TOST GYDA FI

Beth sy'n bod arna i?
Beth sy'n bod arnat ti?
Beth sy'n bod arno fe?
Beth sy'n bod arni hi?
Beth sy'n bod arnon ni?

Beth sy'n bod arnoch chi?


Beth sy'n bod arnyn nhw?
Beth sy'n bod ar y plant?

Mae cefn tost gyda ti.
Mae pen tost gyda fi.
Mae gên **d**ost gyda fe.
Mae gwddw tost gyda hi.
Mae llygaid tost gyda ni.
Mae bola tost gyda chi.
Mae pen tost gyda fi.
Mae pen tost gyda ni.
Mae clust **d**ost gyda nhw.
Mae troed **d**ost gyda'r plant.

BETH SY'N BOD ARNA I?




BETH SY'N BOD ARNAT TI?



BETH SY'N BOD ARNO FE?



BETH SY'N BOD ARNI HI?



BETH SY'N BOD ARNON NI?



BETH SY'N BOD ARNOCH CHI?



BETH SY'N BOD ARNYN NHW?



BETH SY'N BOD AR Y PLANT?



BETH SY'N BOD?

Afiechydon *Illnesses*

If the part of the body is mentioned, we must use **gyda** (south Wales) or **gan** (north Wales).

The pattern in south Wales is: The pattern in north Wales is:

- Mae pen tost gyda fi.
- Mae traed tost gyda hi.
- Mae gen i gur pen.
- Mae ganddi hi draed tost.

Cofiwch



- **tost > dost** if it follows a *feminine singular noun*, e.g. braich, coes:
Mae coes dost gyda fi. Mae gen i goes dost.
- There is a *soft mutation* after all the forms of **gan**, e.g.
Mae ganddo fo bigyn clust.



WHAT'S THE MATTER?

If the part of the body is not mentioned, **ar** must be used, e.g. Mae annwyd ar Steff.

The correct ending must be used with **ar**. They are:

- arna i (*me*)
- arnat ti (*you*)
- arno fe/fo (*him*)
- arni hi (*her*)
- arnon ni (*us*)
- arnoch chi (*you*)
- arnyn nhw (*them*)

Enghreifftiau

Mae peswch arna i.
Does dim annwyd arnoch chi.

Body parts that come in pairs are usually *feminine*, e.g.

dwy goes, dwy fraich, dwy droed.

- **dwy** causes a *soft mutation*.
- some parts of the body can be *masculine* or *feminine*, e.g. llygad, ewin.





Germau!

Germs!

Mae annwyd arna i

Beth sy'n bod	arna i?	Mae	peswch cas	arnat ti.
Beth sy'n bod	arnat ti?	Mae	annwyd	arna i.
Beth sy'n bod	arno fe arni hi?	Mae	gwres	arno fe/arni hi.
Beth sy'n bod	arnon ni?	Mae	gwres uchel	arnon ni.
		Mae	gwres uchel	arnoch chi.
Beth sy'n bod	arnoch chi?	Mae	ffliw	arna i.
		Mae	ffliw	arnon ni.
Beth sy'n bod	arnyn nhw?	Mae	annwyd trwm	arnyn nhw.

Beth sy'n bod arna i?



Beth sy'n bod arnat ti?



Beth sy'n bod arno fe?



Beth sy'n bod arni hi?



Beth sy'n bod arnon ni?



Beth sy'n bod arnoch chi?



Beth sy'n bod arnyn nhw?



Rhowch yr 'ar' cywir yn y bwlch.

1. Mae ffliw _____ nhw.
2. Oedd peswch _____ fe ddoe?
3. Mae annwyd _____ hi.
4. Beth sy'n bod _____ chi?
5. Mae brech yr ieir _____ nhw.
6. Oes gwres _____ fe?

Oes annwyd arnat ti?

Oes annwyd arnat ti?

Oes,	mae	annwyd	arna i.
Nac oes,	does dim	annwyd	arna i.

Oes peswch arnat ti?



Oes annwyd arnat ti?



Oes ffliw arnat ti?



Oes gwres arnat ti?



Holiadur *Questionnaire*

Gofynnwch i bump o bobl yn y dosbarth os oes unrhyw un o'r afiechydon gyda nhw. Rhaid iddyn nhw geisio ateb mewn brawddegau llawn.

Ask 5 people in the class if they have any of these illnesses. They must try and answer in full sentences.

ENW	pen tost	annwyd trwm	peswch cas	clust dost

Holiadur *Questionnaire*

Nawr dewch yn ôl at eich partner. Defnyddiwch eich atebion i drafod beth sy'n bod ar y dosbarth.
Defnyddiwch y cwestiynau Oes _____ gyda _____? a Oes _____ ar _____?

ENW	pen tost	annwyd trwm	peswch cas	clust dost

Gweithgaredd Llafar

Yn y gweithgaredd hwn, byddwn ni'n ymarfer defnyddio'r cadarnhaol, negyddol a chwestiynau. Byddwch chi'n cael 4 cerdyn (Mae'r cardiau ar y sleid nesa) **Pwynt pwysig: mae angen pedwar cerdyn gwahanol arnoch chi.** Nod y gêm ydy casglu pedwar cerdyn yr un peth, trwy ofyn cwestiynau.

Rhaid i chi ddewis un cerdyn i gasglu. Rhaid i chi symud o gwmpas y dosbarth yn gofyn y cwestiwn 'oes _____ arnat ti/gyda ti?'. I ateb, rhaid i chi ddweud 'oes, mae _____ arna i/gyda fi' neu 'nac oes, does dim _____ arna i/gyda fi'.
Er enghraifft...

Mae Lucy eisiau casglu 'pen tost'. Mae Adele eisiau casglu 'pen tost' hefyd...

Bydd Lucy yn gofyn y cwestiwn, a bydd Adele yn dweud 'nac oes, does dim pen tost gyda fi' a bydd hi'n cadw'r cerdyn. Felly, bydd rhaid i Lucy ofyn i rywun arall.

Mae Richard eisiau casglu 'annwyd'. Mae Emily eisiau casglu 'bola tost' ond mae cerdyn 'annwyd' gyda hi hefyd...

Bydd Richard yn gofyn 'oes annwyd arnat ti?' a bydd Emily yn dweud 'oes, mae annwyd arna i' a bydd hi'n rhoi'r cerdyn i Richard.



coes dost



pen tost



clust dost



cefn tost



bola tost




braich dost



gwres



ffliw



dannoedd



peswch




annwyd

Mae hi'n amser darllen!

Darllenwch y sgysiau ar y sleidiau nesaf gyda phartner.

Ydych chi'n deall y sgysiau?

Ydych chi'n gallu meddwl am 3 chwestiwn i ofyn am y sgysiau?



Sgwrs yn yr ysgol

Athrawes:	Prynhawn da, bawb. Mae hi'n amser cylch.
Plant:	Prynhawn da, Miss.
Athrawes:	Sut wyt ti'n teimlo Sera?
Sera:	Mae gwres arna i, Miss. Dw i'n teimlo'n boeth iawn.
Athrawes:	O diar. Dere 'ma, Sera..... Wyt, rwyd ti'n boeth iawn.
Sera:	Ac mae peswch arna i hefyd.
Athrawes:	Oes wir, peswch cas. Wyt ti eisiau mynd adre?
Sera:	Ydw, Miss. Dw i ddim yn teimlo'n dda.
Athrawes:	Miss Huws? Wnei di ffonio Mam Sera, os gweli di'n dda?
Miss Huws:	Wrth gwrs, dere gyda fi Sera.

Sgwrs chwarae rôl yn y feddygfa

Doctor	Bore da, Mrs Jones.
Mrs Jones	Bore da, doctor.
Doctor	Beth sy'n bod arnoch chi, Mrs Jones?
Mrs Jones	Mae fy mhen i'n brifo ac mae gwres arna i.
Doctor	Iawn. Dw i'n mynd i gymryd eich gwres chi.
Mrs Jones	Oes gwres arna i nawr, doctor?
Doctor	Oes, mae eich gwres chi dros dri deg wyth gradd.
Mrs Jones	Beth sy'n bod arna i, te?
Doctor	Mae ffliw arnoch chi, Mrs Jones. Yfwch ddigon o ddŵr ac ewch i'r gwely am ddiwrnod neu ddau.
Mrs Jones	Diolch, doctor. Hwyl fawr.
Doctor	Hwyl fawr, Mrs Jones.

Sgwrs yn yr ysgol

Athrawes:	Bore da, beth sy'n bod arnat ti, Cai?
Cai:	Dw i wedi brifo fy nghlust.
Athrawes:	O diar, sut gwnest ti hynny?
Cai:	Ces i ddamwain, Miss!
Athrawes:	Eistedda'n dawel. Byddi di'n teimlo'n well!
Cai:	Na, Miss, dw i ddim yn gallu clywed.
Athrawes:	Wyt ti'n siŵr?
Cai:	Ydw. Mae pen tost gyda fi hefyd.
Athrawes:	O diar, Cai. Ffonia i dy fam nawr.


Mae hi'n amser ysgrifennu!

Ysgrifennwch sgwrs rhwng athro a phlentyn yn yr ysgol neu rhwng Doctor a pherson tost. Dydy'r plentyn/person ddim yn teimlo'n dda iawn.


Rhaid i chi gynnwys (*include*)...

- y ddau batrwm ('gyda' ac 'ar')
- o leiaf (at least) 3 chwestiwn

Her – ydych chi'n gallu newid amser y ferf? e.e to say I didn't have a sore throat this morning, but I have a sore throat now?



Mae hi'n amser gwrando!



1. Sut mae Cai yn teimlo?
2. Oes pen tost gyda fe?
3. Beth arall sy'n bod arno fe?
4. Beth mae'r athrawes yn dweud wrth Cai am wneud?



The background is a solid light purple color. In the four corners, there are decorative circuit-like patterns made of thin blue lines and small circles, resembling a stylized electronic board.

Os oes...

Os oes amser gyda fi, rydw i'n hoffi mynd am dro ar y traeth.

A chi?

Gorffennwch y frawddeg:

Os oes amser gyda fi.....
(*If I have time....*)

Dwedwch wrtha i (*Tell Me*) 😊



Os oes cot gyda
chi, ewch allan i
chwarae.

*(If you have a coat, go
outside to play)*



Os oes pen tost gyda
chi, ewch i'r gwely.

*(If you have a bad head, go to
bed).*



Ydych chi'n gallu rhoi cyngor (give advice)?



Rhowch gyngor...

Os oes peswch arnat ti...

Os oes gwddw tost gyda chi ...

Os does dim pensil gyda chi...

Os does dim llyfr gyda ti...

Meddyliwch am 5 arall.

